**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

# CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR FFORDD LLEWELYN, Y FFLINT

**RHODDIR RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer ei bwerau dan Adran 23 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig;

a) Gosod Croesfan Cerddwyr Sebra yn y lleoliad fel y disgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Ffordd Llewelyn, Y Fflint fel lleoliad addas i osod cyfleuster croesfan sebra. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod croesfan a fydd yn helpu i sicrhau siwrneiau cynaliadwy i'r ysgol. Bydd y groesfan yn helpu i leddfu pryderon diogelwch mewn perthynas â mynediad uniongyrchol i'r ysgol yn ogystal â sicrhau buddion i'r gymuned ehangach.

Bydd y gwaharddiadau arferol yn erbyn cerbydau yn stopio, aros, llwytho a dadlwytho ar y gerbydffordd o fewn yr ardaloedd â llinellau igam ogam ar naill ochr y groesfan yn berthnasol.

Mae'n bosibl gweld copi o'r Hysbysiad hwn a chynlluniau sy'n dangos y ffyrdd a effeithir gan y cynigion, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Sir y Fflint yn Cysylltu, Stryd yr Eglwys, y Fflint, CH6 5BD. Fe fydd y dogfennau hefyd ar gael ar ein gwefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Traffic-regulation-orders.aspx neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy e-bostio Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn neu e-bost i transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk erbyn dydd Gwener 16 Chwefror 2024 gan ddyfynnu cyfeirif SS/TRO/JB/FFLL/Zebra

## ATODLEN


### Gosod Croesfan Sebra Newydd i Gerddwyr

**Ffordd Llewelyn, y Fflint –** ger ei gyffordd â Maes Alaw

Dyddiedig y 26 Ionawr 2024



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR




Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

**Streetscene**

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

DRAWN BY: KJ

CHECKED BY: CP

SCALES: NTS

NAT. GRID REF: 324825 372198

PRELIMINARY | ~~APPROVAL~~ | ~~CONSTRUCTION~~

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Proposed Zebra crossing
Ffordd Llewelyn, Flint

(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER HT/11/0000 101 C1